

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Grŵp Cynghori Technegol

# Cyngor gan TAG a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd ar yr Amrywiolyn Delta (B.1.617.2)

15 Mehefin 2021







OGL © Crown copyright 2021

# Cyngor gan y Grŵp Cynghori Technegol a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd ar yr Amrywiolyn Delta (B.1.617.2)

## 15 Mehefin 2021

**Crynodeb o'r Cyngor**

- Mae'n amlwg bod y DU nawr ar drothwy trydedd ton yr epidemig COVID-19. Mae Lloegr ychydig ar y blaen i Gymru gydag amser dyblu o lai na 10 diwrnod. Yng Nghymru, cododd rhif atgynhyrchu effeithiol (Rt) yr amrywiolyn delta yn uwch nag 1 o gwmpas 24 Mai ac mae wedi bod rhwng 2 a 3 ers diwedd mis Mai. Hyd yma, mae 304 o achosion o'r amrywiolyn delta wedi'u hadrodd yng Nghymru.
- Mae data genomig yn awgrymu bod yr amrywiolyn delta wedi'i gyflwyno i Gymru o leiaf 52 o weithiau. Ymhlith y rhain gwelwyd achosion sengl, achosion ar wasgar a chlystyrau aml-achos. Mae presenoldeb clystyrau aml-achos yn darparu tystiolaeth o ledaeniad cymunedol o'r amrywiolyn delta yng Nghymru.
- Ar hyn o bryd, mae nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19 yn parhau i fod yn isel – ond mae'r niferoedd nawr yn cynyddu'n gyson yn Lloegr ac yn yr Alban. Mae'r berthynas rhwng achosion, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau wedi newid, ond nid yw wedi atal, ac nid ydym yn deall y berthynas yn llawn. Bydd twf esbonyddol mewn achosion yn dal i arwain at dwf esbonyddol mewn derbyniadau i'r ysbyty; efallai nad yw'r cynnydd diweddar mewn derbyniadau i'r ysbyty yn sgil yr amrywiolyn delta wedi bod mor amlwg oherwydd y gostyngiad mwy mewn derbyniadau yn sgil yr amrywiolyn alffa.
- Mae Public Health England yn amcangyfrif bod gan yr amrywiolyn delta fantais twf o 41% yn y gymuned a 64% ar yr aelwyd o gymharu â'r amrywiolyn alffa, ac mae SAGE yn amcangyfrif amrediad posibl o rhwng 40% ac 80%. Mae hyn yn cynrychioli R0 (rhif atgynhyrchu sylfaenol) o 7, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i 80% o'r boblogaeth gael y brechlyn, wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws y boblogaeth gyfan, i sicrhau imiwnedd torfol.
- Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch maint posibl y niwed a'r manteision o roi amser i'r rhaglen frechu gyrraedd mwy o'r boblogaeth, consensws SAGE oedd argymell oedi llacio'r cyfyngiadau a gynlluniwyd ar gyfer 21 Mehefin yn Lloegr am bedair wythnos – gan sicrhau bod mwy o bobl wedi'u brechu.
- Mae'r data diweddaraf ar gyfer y cyfnod rhwng 4 ac 8 Mehefin yn awgrymu bod lefel cydymffurfiaeth ag ymddygiadau diogelu allweddol yn parhau i fod yn uchel, er eu bod wedi lleihau ers llacio'r cyfyngiadau. Mae nifer y bobl sy'n cymysgu â rhywun o'r tu allan i'w haelwyd wedi cynyddu yn ystod yr haf, gyda'r mwyafrif yn cwrdd am resymau cymdeithasol. Mae tueddiadau

symudedd yn awgrymu tueddiad cynyddol, sy'n fwy na'r lefelau a gofnodwyd yn Haf 2020.

- Wrth i ragor o ddata ddod i'r amlwg ynglŷn â throsglwyddadwyedd uwch yr amrywiolyn Delta ac effeithiolrwydd uchel y brechlyn gyda dau ddos, bydd yn bwysig pwysleisio'r ymdrech barhaus i leihau'r risg o haint drwy ddilyn canllawiau a phwysleisio'r pwysigrwydd i bobl fanteisio ar y brechlyn, yn enwedig grwpiau ifanc ac agored i niwed.
- Mae data'r farchnad lafur yn awgrymu y gallai cynnyrch domestig gros (GDP) a gollir yn wythnosol yng Nghymru, yn gysylltiedig â'r cyfyngiadau sy'n weddill, fod oddeutu £10 miliwn; os bydd ymestyn y cyfyngiadau am gyfnod cyfyngedig yn lleihau ansicrwydd am gwrs y pandemig yn y dyfodol, ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen rhagor o gyfyngiadau, gall hyn arwain at effaith gadarnhaol ar GDP. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o asesu hyn, ac mae'n bosibl y gallai cyfnod pellach o gyfyngiadau arwain at golli nifer o fusnesau sydd ar fin methu.
- Ar hyn o bryd, mae Cymru mewn sefyllfa wahanol i Loegr, ac ar ei hôl hi o ran digwyddedd, yn ogystal â bod ar y blaen yn ei rhaglen frechu. O ganlyniad i'r twf a welwyd yn yr epidemig o ganlyniad i'r amrywiolyn delta yn Lloegr a'r Alban, a chydag achosion yn cynyddu yng Nghymru, ynghyd ag ansicrwydd allweddol o'r gyfradd o achosion sy'n arwain at dderbyniadau i'r ysbyty, y prif argymhelliad gan y Grŵp Cynghori Technegol yw oedi llacio cyfyngiadau ymhellach am un cylch adolygu. Dylai oedi am 21 diwrnod fod yn ddigonol i ddeall yr effaith debygol ar dderbyniadau i'r ysbyty yng Nghymru, yn ogystal â chaniatáu mwy o amser ar gyfer cynnig dau ddos o'r brechlyn i oedolion.